Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB-DFM-1033-09
Mr William Graham AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

15 Rhagfyr 2009

Annwyl William,

**Par: Cyfarfod Llawn 2il Rhagfyr 2009**

Ysgrifennaf parthed y cyfarfod llawn uchod pan gytunais i anfon ymateb ysgrifenedig atoch ynghylch y cyfleoedd am brofiad gwaith yn Ne-Ddwyrain Cymru.

Yng Nghymru, gweithredir cynllun profiad gwaith o'r enw Graduate Opportunities Wales (GO Wales) a lansiwyd yn 2003 gydag Arian Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Rheolir y rhaglen gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac fe'i chyflwynir mewn partneriaeth â Gwasanaethau Gyrfaoedd Prifysgolion. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar roi cymorth i raddedigion a myfyrwyr gyda'r bwriad o wella lefelau sgiliau uwch mewn busnesau bach a chanolig yng Nghymru trwy roi gwybodaeth am gyfleoedd gwaith, cyngor ar yrfaoedd, cyngor ar ddechrau busnes a lleoliadau gwaith.

Mae'r cynllun wedi bod yn amhrisiadwy i fusnesau Cymru yn yr ardal cydgyfeirio am ei fod wedi eu galluogi i gael mynediad at sgiliau lefel uwch ac mae rhai wedi derbyn arian cyfatebol ar gyfer hyfforddi a datblygu graddedigion sydd o fudd i'r graddedig a'r busnes sy'n ei dderbyn ar leoliad. Mae adolygiadau'n cael eu cynnal ar y posibilrwydd o gynnwys cwmnïau mawr ychwanegol yn y cynllun a mwy o fusnesau mewn ardaloedd y tu allan i'r ardal cydgyfeirio.

Ieuan Wyn Jones
Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for the Economy and Transport